TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	17 Ionawr 2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	18 Ionawr 2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	25 Ionawr 2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

PWNC

Cymryd prydles o Uned 2/3 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor ar ran Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Asiantiaeth Cefnffyrdd).

PENDERFYNIAD –

Awdurdodi yn unol â'r Adroddiad Swyddog

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD–

Gweler yr Adroddiad Swyddog

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Lowri Cadwaladr Roberts
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	17 Ionawr 2017
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	DM

Pwnc : Cymryd prydles o Uned 2/3 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor ar ran Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Asiantiaeth Cefnffyrdd).

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad : I awdurdodi cymryd prydles o Uned 2/3 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor ar ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol mewn ymgynghoriad a Pennaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad : Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn dymuno cymryd prydles o Uned 2/3 LLys Britannia, Parc Menai.

Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod arweiniol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd, ac yn darparu adnoddau drwy gytundeb ar gyfer yr Asiantaeth Cefnffyrdd. Mae gofyn felly i Gyngor Gwynedd ddal prydlesi er gweithredu y swyddogaeth yma. Mae cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru â'r Cyngor yn darparu trefniadau ar gyfer ariannu a diogelledu Cyngor Gwynedd mewn cyswllt âg ysgwyddo ei swyddogaethau fel awdurod arweiniol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd, sy'n cynnwys dal y brydles dan sylw.

Mae Uned 2/3 wedi ei lleoli union o dan Uned 5, sef uned y mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd eisioes mewn meddiant ohoni drwy brydles sy'n cael ei dal gan Gyngor Gwynedd. Bydd cyfnod y les ar gyfer Uned 2/3 yn cyd-fynd a chyfnod prydles Uned 5, gan ddirwyn i ben ar y 26ain o Fai 2026.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad : Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd fel awdurdod arweiniol yn dal y brydles, ond bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig a'r brydles yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru.

Nid oes bwriad i dalu mwy na rhent y farchnad am yr Uned.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau : Dim

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad : Dim

Prif Weithredwr - "Dim i'w ychwanegu"

Prif Swyddog Cyllid - "Gallaf gadarnhau y bydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn gyfrifol am dalu costau'r brydles yn unol â'r trefniant gyda Llywodraeth Cymru. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro – "Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

Aelod/au Lleol - Dim yn fater lleol